



Tu ôl i'r dorth mae'r blawd,  
Tu ôl i'r blawd mae'r felin,  
Tu ôl i'r felin, draw ar y bryn,  
Mae cae o wenith melyn.

Uwchben y cae mae'r haul  
Sy'n lliwio pob tywysen,  
Uwchben yr haul mae Duw sy'n rhoi  
Y gwynt a'r glaw a'r heulwen.

# GAIR Y GWEINIDOG

Cymeriad oedd Gareth! Gŵr wedi ymddeol ac yn treulio ei oriau hamdden yn hyfforddi pobl ifanc i baffio. Yn wahanol i'w wraig, prin fu ei ymweliadau â'i gapel, ond pleser a bendith oedd ymweld â'r cartref. Mi roedden ni wedi darganfod tir cyffredin a hynny fu'n gyfrwng i greu perthynas rhwng y ddau ohonom.

Gadewch i mi esbonio. Fe fues innau'n paffio unwaith ac eto ddim! Nid mewn ysgarmes ond yn hytrach yng nghampfa Ysgol Glan y Môr, Pwllheli, trwy garedigrwydd athro chwaraeon annwyl. Criw bach dethol, prin eu diddordeb mewn pêl droed a rygbi ond yn frwdfrydig iawn dros chwarae golff a rhedeg! Fe'n hysbyswyd un prynhawn y byddai yna newid yn y trefniadau ac fe'n gyrrwyd i'r Gampfa i gadw cwmni i fachgen lleol a oedd ar y pryd yn hyfforddi i fod yn baffiwr proffesiynol. Yr oedd gartref ar ei wyliau ac yn dymuno cael ychydig o ymarfer ac felly y buodd hi. Golau gwyrdd i'w bwnio fel y mynnem ac yntau'n amddiffyn ei hun ac yr un pryd yn dysgu ambell dechneg.

A rhyw siarad felly fyddwn i a Gareth, rhyw gymysgedd o ddiddordeb a diffyg diddordeb, yn ddarlun byw o'r modd y mae rhywun yn ceisio creu perthynas â phobl. Weithiau'n llwyddo, weithiau'n cael anhawster. Hawdd oedd rhannu profiad ond anoddach oedd datgan barn ac yn arbennig gan fod y syniad o bwnio rhywun yn ddirugaredd yn enw chwaraeon a disgyblaeth yn rhywbeth gwrthun i mi, ac yn y man yna yr ydan ni'n darganfod ein hunain. Yn rhan o fywyd a bywydau, yn ceisio adnabod ac yn aml yn sylweddoli'r gagendor all fodoli rhwng pobl fel nad ydan ni weithiau'n gwybod beth i'w wneud â'n gilydd. Onid y gwir yw, tra ar un llaw gall y weithred fod yn un rhwydd, fendithiol, ar y llaw arall mae rhywun yn gorfod derbyn pethau fel y maent. Derbyn ein gwahaniaethau a'n dieithrwch oherwydd mae yna berygl wastad o orfodi perthynas a honno'n un hynod o artiffisial ac ar ei gwaethaf, yn un sy'n bygwth hunan barch.

Doedd yna ddim byd artiffisial yn perthyn i'r gymdeithas honno ar aelwyd Gareth, fe fyddai'r sgwrsio'n rhwydd a'r croeso'n gynnes ac mewn dim o amser fe ddois yn ymwybodol o un peth arbennig sef ei wybodaeth o'r Ysgrythurau. Yn wir yr oedd yn ymhyfrydu ei fod yn gwybod mwy am ei gynnwys na'i wraig, yn ei ddarllen yn ddyddiol ac mae'n siŵr yn cael llawer o gysur ac arweiniad o'i gynnwys.

Mae yna lawer i Gareth a'i fath yn y Gymru sydd ohoni, Cymru ôl grefydd gyfundrefnol sy'n dal i feddwl ac i fyw mewn ffordd arbennig a'r ddealltwriaeth o Dduw yn dal i brocio a phoeni a chysuro. Gwir, mae yna onestrwydd mawr yn perthyn i gymdeithas heddiw a phobl yn barod iawn i ddatgan nad ydynt yn credu ac eto mae cred yn dal yn rhywbeth byw. Y mae'r ddealltwriaeth yna yn gyfrwng cysur a gobaith ond hefyd mae'n ein harwain i feddwl am ein perthynas â chymdeithas o'r fath ac yn dilyn o hynny beth yw ystyr Eglwys a bod yn Eglwys, addoliad a gwasanaeth a gwerth a phwrpas cymdeithas Gristnogol.

Wrth ail gydio yng ngweithgaredd Capel y Morfa boed i'r ystyriaethau hynny fod yn amlwg yn ein bywyd fel unigolion a chynulleidfa a gadewch i ni weld y cyfleoedd a'r gwahoddiadau hynny y mae Duw yn caniatáu i bob un ohonom. Yn y manau hynny y byddwn yn adnabod y cysegredig.

Diolch am y cynhaeaf!

Eifion



*Diolch...*

*Derbyniodd Capel y Morfa swm o £200 trwy ewyllys y diweddar Mr William Wilkinson, Cartref Hermitage, Y Trallwng (gynt o Fryncastell, Bow Street). Gwerthfawrogwn yn fawr y caredigrwydd hwn ar ei ran.*

---

# NEWYDDION

## Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion ...

- ✦ at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ystod yr haf: Ethel Williams, Mair Griffiths, Mattie Jones a Glenys James ac at Margaret Jones a Janie Jones yn ysbyty Tregaron.
- ✦ ac at ein haelodau sydd mewn cartrefi preswyl neu'n derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain.

## Dymunwn yn dda ...

- ✦ ac anfonwn ein cofion at Gwen Job sydd wedi symud i gartref gofal Glan Rhos, Brynsiencyn, Ynys Môn. Mae'r ynys yn gyfarwydd iddi a'r teulu yn agos;
- ✦ hefyd i Garmon a Hannah Gruffudd, Elliw a Lleuwen yn eu cartref newydd yn Troed y Rhiw, Ffordd Penglais;
- ✦ i Owen Williams ac Aimee Allin a fydd yn priodi yng ngwesty Tyglyn Aeron ar 29 Hydref.

## Cydymdeimlwn yn ddwys â ...


- ✦ â Iola a Geraint Jones ar farwolaeth chwaer Iola, sef Beryl Jones Machynlleth. Cydymdeimlwn hefyd â Clifford Jones, brawd Iola a'i briod Sandra;
- ✦ â Hefin Jones ar farwolaeth ei briod Beryl, â Delyth ac Elwyn sydd wedi colli eu mam ac â Phyllis Jones a Mary Jones y ddwy chwaer yng nghyfraith sy'n aelodau yn y Morfa.
- ✦ ag Ann Skitt sydd wedi colli ei brawd a'i thad yng nghyfraith yn ystod yr haf;
- ✦ hefyd â Christopher Davies, Manceinion, nai ac unig berthynas Lynda Williams, Alltlywd, Rhos Penglais.

## Llongyfarchiadau...

- ✦ a dymuniadau gorau i Aranwen Parry a Dan Brown ar eu priodas yn Eglwys Cydweli ddechrau'r haf;
- ✦ i'r bobl ifanc ar eu llwyddiant yn eu arholiadau yn ystod yr haf a dymunwn yn dda iddynt i gyd wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau, ac i'r rhai sy'n dechrau swydd neu yrfa newydd;

- ✦ i'r rhai a fu'n brysur yn cystadlu ac yn llwyddiannus mewn cystadlaethau cerdd a llefaru yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni ac mewn eisteddfodau eraill. Bu eraill yn brysur yn dilyn eu diddordebau mewn meysydd eraill yn ystod cyfnod yr haf. Da iawn chi i gyd!
- ✦ i Eurig Salisbury ar ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni am ei nofel *Cai*. (Ceir manylion isod am noson sydd wedi ei threfnu i ddathlu llwyddiant Eurig);
- ✦ i Arwel Rocet Jones ar ennill y gadair yn Eisteddfod Tregaron.

## *Dathlu Llwyddiant Eurig*



Sadwrn, 8 Hydref, 7.30pm yn yr Hen Neuadd, Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth

Noson hwyliog o farddoniaeth a chân, cyfarch a thynnu coes, yng nghwmni'r Glêr, *pros* Talwrn y Beirdd a'r sîn farddol Cymraeg.

Bydd cerddoriaeth fyw gan rai o aelodau Côr Ger y Lli ac Iestyn Tyne (Patrobas).

Mae mynediad yn rhad ac am ddim, ond mae angen tocyn.

Gallwch archebu tocyn yn hawdd drwy ymweld â  
[www.aber.ac.uk/eurig](http://www.aber.ac.uk/eurig)

*Croeso mawr i bawb!*

## ER COF

**MRS LYNDA WILLIAMS** Gwasanaeth yn adlewyrchu natur a phersonoliaeth Mrs Lynda Williams oedd y gwasanaeth a gynhaliwyd yn Amlogfa Aberystwyth. Ym mhresenoldeb dau neu dri, cafwyd cyfle i'w chofio a'i chyflwyno i drugaredd a gofal yr Arglwydd.

Brodor o ardal Aberteifi oedd Mrs Williams, yn un o dri o blant a fagwyd ar aelwyd draddodiadol ac egwyddorol, a bu hynny'n arweiniad iddi trwy gydol ei bywyd. Wedi derbyn ei haddysg elfennol, dechreuodd hi, ynghyd â'i chwaer, weithio yn y Swyddfa Bost. Ymhen amser, fe'i symudwyd i'r Swyddfa yn Aberystwyth ac yno y buodd hyd ei hymddeoliad. Gyda'r symudiad hwnnw, cyfarfu a gŵr a ddaeth mewn amser yn briod a chymar iddi am dros drigain mlynedd a gellir dweud bod yr uniad hwnnw yn un naturiol a bendithiol.

Bywyd syml oedd bywyd Mr a Mrs Gwynne Williams, yn mwynhau cwmni ei gilydd a'r aelwyd yn ganolog i'r cyfan. Yr oedd yr ardd a'r gegin yn bwysig iddi a'r cyfan yn adlewyrchu ei doniau a'i gofal. Ond mi roedd yna rywbeth arall hefyd. Byddai'n gwau cymeriadau o wllân, ac wedi cwblhau casgliad, yn eu trosglwyddo i rai o siopau elusennol y dref, a'r cyfan yn adlewyrchiad o'i chydwybod gymdeithasol a'i ffydd dawel.

Un o blant Seilo oedd Mr Gwynne Williams ac felly yno y bu'r ddau nes sefydlu Capel y Morfa. Parhaodd y ffyddlondeb, a thawelwch y ddau yn achosi iddynt geisio'r seddi cefn. Colled fawr iddi oedd marwolaeth ei phriod a bu'r cyfnod dilynol yn gyfnod o salwch ac arafwch. Fe allodd aros yn ei chartref trwy garedigrwydd cymdogion, ond wedi cyfnod yn yr ysbyty bu'n rhaid ymgartrefu yng Nghartref Cwm Cynfelin lle cafodd ofal a charedigrwydd arbennig hyd ei marwolaeth.

Diolchwn am ei bywyd a chydymdeimlwn â'i nai Christopher a'r teulu yn eu profedigaeth.

Bu'r gwasanaeth yn Amlogfa Aberystwyth ar 1 Medi dan ofal ei gweinidog Y Parch Eifion Roberts.



# YR YSGOL SUL

Yn ein gwasanaeth ddiwedd tymor, cyflwynwyd sicc am £250, (sef elw noson goffi'r Ysgol Sul) i Siôn Meredith ar ran Tearfund er mwyn estyn cymorth i ffoaduriaid yn Syria ac mewn gwrsylloedd yn y Dwyrain Canol. Anfonir yr arian yn uniongyrchol i sicrhau bod cymorth megis bwyd, cysgod ac angenrheidiau eraill yn cyrraedd y rhai sy'n dioddef o ganlyniad i'r rhyfel erchyll yn Syria. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Hywel Meredydd a Fiona Michael ar ran Tearfund Cymru.



## YMWELD Â BYD MARI JONES

Rydw i wedi clywed sôn am drip Ysgol Sul gan mam a John, triapiau i'r Rhyl a Dinbych-y-pysgod a llefydd tebyg. Ond doedd na ddim cyfle wedi bod i mi fynd ar drip Ysgol Sul o Gapel y Morfa. Felly roedd dydd Sul yr unfed ar ddeg o Fedi yn ddiwrnod arbennig iawn. Roedd hi'n fore heulog braf ac aeth criw Ysgol Sul Capel y Morfa ar drip i Fyd Mari Jones yn Llanycil. Llwyddodd dros ddeg ar hugain o bobl i gyrraedd y Bala (mewn car a neb yn cerdded) i glywed hanes rhyfeddol y ferch bymtheg oed a gerddodd dros chwe milltir ar hugain er mwyn prynu Beibl.



Yn ystod y dydd clywsom sut y cafodd Eglwys Beuno Sant, Llanycil ei haddasu a'i hatgyweirio gan Gymdeithas y Beibl er mwyn creu Byd Mari Jones. Cadwyd nifer o'r nodweddion gwreiddiol yn yr eglwys gan gynnwys y bedyddfaen, teils y llawr, y ffenestri lliw a'r clo. Cawsom weld yr allwedd drom ac arni'r llythrennau Ll. Y. C. – allwedd sy'n dal i gael ei

defnyddio heddiw. Wrth grwydro'r arddangosfa roedd cyfle i ddarllen nifer o ffeithiau am fywyd Mari Jones a'i gŵr. Roedd yn drist iawn deall iddynt gollu nifer o blant yn ystod eu bywydau. Bu farw gŵr Mari, Thomas Jones yn 1849 a phymtheg mlynedd wedyn bu farw Mari yn 80 oed. Fe'i claddwyd yng nghapel Bethlehem ym Mryncrug. Buom yn crwydro'r fynwent yn Llanycil hefyd a gweld bedd Thomas Charles a'i wraig Sali.

Roedd tipyn o weithgareddau ar ein cyfer yn y ganolfan yn yr eglwys. Bu nifer ohonom yn ysgrifennu ein hoff adnod ar ddarn o gerdyn ac yna ffurfiwyd tŵr o'r cardiau – ac yr oedd yn dŵr go uchel erbyn y diwedd. Yn hwyrach yn y prynhawn penderfynodd Eleri y dylem ganu yn yr eglwys. Cawsom hwyl



yn canu “Darllen y Beibl” efo'n gilydd. Roedd y gân yma'n addas iawn oherwydd ei bod yn pwysleisio pwysigrwydd y Beibl. Yn ogystal â'n picnic roedd cyfle i fwynhau chwarae ar siglen fawr yn y parc a bu Menai'n brysur yn gwthio'r siglen yn ôl ac


ymlaen. Roedd pawb yn mwynhau cyfle i chwarae a chymdeithasu efo ffrindiau ar ôl y gwyliau haf.

Aeth pawb am adref wedi gwirioni. Roedd yn brofiad cofiadwy cael ymweld â'r ganolfan, mwynhau diwrnod braf a joio cwmni ffrindiau – mae'r trip Ysgol Sul yn dal yn fyw ac iach!

Gwen Down

*Cewch weld rhagor o luniau'r trip dwy ymweld ag Oriel Luniau'r wefan: [www.capelymorfa.org](http://www.capelymorfa.org)*





# Newyddion Ebeneser



Ar ddechrau'r tymor newydd yr ydym yn anfon ein dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion. Anfonwn ein cofion at y rhai sydd, oherwydd eu hamgylchiadau, yn methu mynychu'r gwasanaethau ar brynhawn Sul.

Cofiwn yn arbennig am Janie Jones sydd wedi symud o Ysbyty Bronglais i Ysbyty Tregaron. Mae hi'n derbyn gofal da ac yn ymdrechu i wella.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant ag Ann Skitt sydd wedi colli ei brawd a'i thad yng nghyfraith dros yr haf. Cofiwn amdanoch chi Ann a'r teulu.

Ar brynhawn Sul, 16 Hydref am 2.15, cynhelir gwasanaeth diolchgarwch Ebeneser.

Hoffai Megan Evans ddiolch o waelod calon i bawb a fu mor garedig iddi dros gyfnod ei phen blwydd yn 90 oed, yn aelodau'r Morfa a ffrindiau Ebeneser, gan wneud y dathliad yn un arbennig iawn. Dyma rannu detholiad o'r penillion a dderbyniodd gan Pryderi Llwyd Jones ar yr achlysur arbennig hwn.

Mae **Megan Noddfa** yn naw deg oed  
a'i chartref yn noddfa fel erioed,  
prysurdeb ei bywyd o'i chwmpas i gyd,  
yr aelwyd a'r teulu – tŷ llawn a thŷ clyd.

Mae **Megan Ebeneser** yn naw deg oed  
a'i ffydd yn ei chynnal fel erioed,  
ac er na all bellach ymuno â'r saint  
mae dilyn ei Gwardwr i Megan yn fraint.

Mae **Megan y Pethe** yn naw deg oed  
ar lwybrau'n diwylliant mae ôl ei throed,  
ei chylchgrawn a'i radio, ei llieiniau di-ri  
a'i chariad at ein haith a'n hetifeddiaeth ni.

A **Megan Chwiorydd**? Naw deg ydyw hi  
cenhadaeth a sasiwn a phwyllgorau di-ri';  
a'r car bach yn crwydro i gapel a festri  
er mwyn y gweithwyr ac i'w calonogi.

Ac i'r **Megan** hon y canwn ein cân  
ar ddydd ei phen blwydd yn ddiwahân;  
dim ond un Megan sydd a dim ond un a fydd,  
boed bendith Duw ar ddatliadau'r dydd.

Cofiwch am...

**Joio@Morlan**

Llun 24 Hydref 2016

Dyma ddiwrnod o bob math o weithgareddau hwyliog  
wedi eu trefnu gan Fenter Gobaith.

Cyfle i blant ddod at ei gilydd i gael llawer iawn o HWYL!

Cysylltwch â Zoe Jones i gael mwy o fanylion  
075840411524 neu [zoejones34@gmail.com](mailto:zoejones34@gmail.com)

# HAF I'W GOFIO I DANIEL!

Soniwyd yn rhifyn diwethaf Perthyn fod Daniel Rowbotham wedi ennill Gwobr Merêd. Dyma'r wobwr hardd a dderbyniodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Cawsom brynhawn



hamddenol ar stondin y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yng nghwmni'r teulu a chyfeillion Dan. Deuddydd yn ddiwedd-arach roedd Dan yn un o dri myfyriwr a dderbyniodd englynion personol gan y Prifardd Mererid Hopwood ar

stondin Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Dyma englyn Mererid i Dan:

Ti yw dyn ein cymuned – yn dy waith  
caed, Dan, faint ein dyled,  
yn dy ddawn caed adduned  
am rodd, fel bu rhodd Merêd.

Yna daeth yr ymweliad â sofffa'r rhaglen 'Heno' yng nghwmni Catrin Howells o Bonterwyd, enillydd cyntaf Gwobr John Davies. Ac er syndod i gyflwynwyr y rhaglen mae Dan a Catrin yn adnabod ei gilydd ers dyddiau ysgol gynradd pan oedd y ddau'n cymryd rhan mewn sioeau fel 'Oliver', 'My Fair Lady' a 'The King and I' ar lwyfan Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.



Gwynfor Jones



# CYLCH GWEDDI A CHOFFI ... a DIOLCH

Bob bore Mawrth, cynhelir y Cylch Gweddi a Choffi yn y Morlan – cyfarfod gyntaf yn y bar coffi am 10.30 am baned a sgwrs ac yna yn dilyn, cyfnod o weddi, rhannu a myfyrdod yn yr ystafell dawel. Beth am droi i mewn?

Yn ein cyfarfod olaf cyn gwyliau'r Haf cytunwyd ein bod yn rhannu ein casgliad yn ystod y flwyddyn rhwng tair elusen leol, sef Hosbis yn y Cartref, Cyfeillion Ysbyty Bronglais a chlwb cinio Starky's Eglwys St Anne Penparcau. Trefnwyd y cinio dair gwaith yr wythnos yn ystod y gwyliau ar gyfer plant o Ysgol Llwyn yr Eos a fyddai'n cael budd o'r gwasanaeth newydd hwn. Derbyniodd Eileen Jones, y Trysorydd, lythyrau o ddiolch a gwerthfawrogiad gan drefnwyr yr elusennau hyn.

Mae'r Parch JD, ficer St Anne, yn diolch hefyd am gyfraniadau wythnosol aelodau Capel y Morfa i'r banc bwyd. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth.

Diolch hefyd i'r aelodau sydd mor barod i weini te a choffi a chynorthwyo gyda'r lluniaeth amser cinio pan fydd pwyllgorau Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cynnal eu pwyllgorau yn y festri. Os ydych yn dymuno ymuno â'r rota a wnewch chi roi gwylbod i Eleri os gwelwch yn dda.

## CYFARFOD CENHADOL CHWIORYDD CEREDIGION A GOGLEDD PENFRO

Ble?	Capel Seion (pentref)
Pryd?	Sadwrn, 1 Hydref
Faint o'r gloch?	2.30

Anerchir gan Nan-Wyn Powell Davies, Yr Wyddgrug



Thema – Rhedeg y Ras



Paned i ddilyn  
Croeso cynnes i bawb!



Bydd y casgliad yn mynd tuag at  
brosiectau cenhadol yng Nghymru

# DIGWYDDIADAU CYMORTH CRISTNOGOL HYDREF 2016

Sadwrn, 1 Hydref

Casgliad stryd Cymorth Cristnogol yng nghanol Aberystwyth.  
Mae angen gwirfoddolwyr!



Llun, 3 Hydref, 12–1.30

Cinio Bara a Chaws, Bethel, Stryd y Popty



## **SWPER A CHÂN!**

Sadwrn, 22 Hydref

am 7 o'r gloch

Canolfan Fethodistaidd St Paul



Noson o eitemau cerdd a llafar yn Gymraeg neu Saesneg gan eglwysi  
a chapeli Aberystwyth sy'n cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol

Arweinydd:

Y Parchedig Andrew Loat, Llanbadarn

Dewch â bwyd i'w rannu ar gyfer bwffe bys a bawd

Bydd casgliad yn ystod y noson ar gyfer gwaith  
Cymorth Cristnogol (gweler nodyn isod)

Nodwch y dyddiad a chefnogwch y noson  
os gwelwch yn dda!

Mae Cymorth Cristnogol Aberystwyth wedi ymrwymo i godi  
£5,000 tuag at Brosiect Partneriaeth Gymunedol a fydd yn  
rhoi gwell addysg iechyd a mynediad at ofal iechyd i ferched  
o gymunedau brodorol yn Honduras ac El Salvador

Yn ystod y noson arbennig – SWPER A CHÂN - cewch gyfle i  
gyfrannu at y prosect hwn sy'n derbyn cefnogaeth gan yr  
Undeb Ewropeaidd o £3 am bob £1 a gesglir gennym

# GWEDDI

*am faddeuant a doethineb*

Diolchwn i ti, Arglwydd a Chreawdwr popeth, am fendithion y bywyd hwn ac am ddigonedd amrywiol dy roddion: am y bwyd yr ydym yn ei fwyta a'r pleser a gawn ohono.



Ond gwyddom fod gan filiynau lai na digon tra bo eraill yn byw efo gormod. Mae bwyd yn cael ei wastraffu tra bo pobl yn llwgu. Camddefnyddir adnoddau natur er mwyn elw. Maddau inni, Arglwydd, ein hunanoldeb ac agor ein calon i anghenion y llwglyd ble bynnag y maent.

Llawenhawn, Arglwydd, am iti greu daear mor gyfoethog mewn adnoddau naturiol; a gweddiwn y dysgwn sut i'w defnyddio yn gyfrifol: ddim yn eu gwastraffu ar yr hyn nad ydym ei angen, ddim yn llygru'r pridd, yr awyr a'r môr, ddim yn dinistrio bywyd anifeiliaid a phlanhigion, ond yn cymryd gofal wrth drosglwyddo'r ddaear i eraill – daear sydd yn abl i ddiwallu bywyd pob person, er gogoniant ac anrhydedd dy enw. AMEN

*Oddi ar wefan Cymorth Cristnogol*

**Cofiwch** ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!

[www.capelymorfa.org](http://www.capelymorfa.org)

**Cofiwch** hefyd ddilyn cyfrif Trydar Capel y Morfa:  
@capelymorfa

# Gwasanaethau Diolchgarwch

bore Sul, 16 Hydref, 10 o'r gloch

## Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul

Thema: Rhannu

bore Mawrth, 18 Hydref, 10.30, yn y Morlan

nos Iau, 20 Hydref, am 7 o'r gloch yn Festri'r Morfa

*Casgliad tuag at Gymorth Cristnogol – Bara i'r Byd*

*Bore Sadwrn, 15 Hydref, am 9.30 yn y Festri,  
gwerthfawrogi'r bob cyfraniad o flodau, gwyrddni a.y.b tuag at  
addurno'r capel a phob cymorth gyda'r gwaith. Diolch*

## CYMDEITHAS Y MORFA

I agor tymor y Gymdeithas, cynhaliwyd noson goffi a chafwyd cyfle i fwynhau adloniant gan rai o'r ieuencid a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni ac Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan dros yr haf. Yn dilyn y defosiwn a'r croeso gan y Cadeirydd, Dafydd Morgan Evans, cyflwynwyd unawdau gan Ioan Mabbutt a Rhodri Davies, unawd cerdd dant gan Llŷr Eirug a monolog gan Gwen Aeron Down. Cyfeilydd y noson oedd Mary Jones Morris. Cafwyd cyfle hefyd i weld y ffotograff hwn gan Cari Lois



Davies a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth lluniau'r haf ar y rhaglen Heno, gyda Keith Morris yn beirniadu.





Ar ddiwedd y noson daeth Eurig Salisbury ymlaen i rannu cefndir ysgrifennu ei gyfrol *Cai* a ddaeth yn fuddugol yng nghystadlaeth y Fedal Ryddiaith yn Y Fenni ac i ddangos y fedal. Yna cafwyd blas ar wrando ar Eurig yn darllen rhan o'r gyfrol. Ar ran y Gymdeithas diolchodd y Cadeirydd i'r ieuenctid ac i Eurig am eu cyfraniadau arbennig i'r noson a'u llongyfarch ar eu llwyddiant. Diolchodd hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth, i Jean Davies a Beti Roberts am fod yn gyfrifol am y lluniaeth, i Ifor Davies am ei waith fel Trysorydd, i Hywel Cynwyd Jones am argraffu'r tocynnau ac i bawb arall a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

*Cofiwch am ddigwyddiadau nesaf y Gymdeithas:*

- Nos Lun, 10 Hydref, am 2 o'r gloch, *Beth am baned?*  
*Prynhawn y llestri* gyda William Griffiths ac Eifion Roberts
- Nos Lun, 24 Hydref, am 7 o'r gloch, Swper  
Diolchgarwch, gyda'r gwesteion Gareth a Nona Owen  
Eleri Davies, Ysgrifennydd





*Llyr, Ioan, Rhodri a Gwen yn diddanu'r Gymdeithas*

---

## *Trip y Gymdeithas*

Mercher, 12 Hydref 2016  
Trip hanner diwrnod  
Gadael Aberystwyth tua 1.45  
Dychwelyd tua 9 o'r gloch  
Ymweld â thri lle...  
Pris £40, yn cynnwys swper, tâl  
mynediad a'r bws.  
Enwau i Hefin Jones  
ar 615177 os gwelwch yn dda.



# SWYDDOGAETHAU HYDREF 2016

**Blaenor y Mis** Arwel Jones

**Porthorion** Gwenan Creunant, Rhys Jones,  
Rhys Huws, Trish Huws

## **Blodau'r Cysegr – Y Morfa**

- 2 Ann Jones a Blodwen Williams
- 9 Rhiannon Roberts a Gwerfyl Pierce Jones
- 16 Meleri ac Elvey MacDonald
- 23 Gwenan Creunant a Siân Eleri
- 30 Arwel a Sharon

## **Blodau Ebeneser**

- 2 Megan J. Evans
- 9 Sylvia Lewis
- 16 Mari Hughes
- 23 Julie Ebenezer
- 30 Ann Skitt

## **Cynorthwywyr Llestri Cymun**

- 2 (bore) Catrin Griffiths, Eirwen Lewis, Awen McDougall,  
Valerie Jones

## **Cynorthwywyr Ariannol**

- 2 Menna Evans ac Elvey MacDonald
- 9 William a Mair Griffiths
- 16 Beti Roberts a Blodwen Williams
- 23 Alun a Mary Jones Morris
- 30 Meirion Morgan a Menai Lloyd Williams

## **Tregerddan**

- 30 Dan ofal Huw Owen

Golygyddion y mis hwn yw Gwenan Creunant ac Ann Hawke. Diolch o galon i Elin Mabbutt, Gwen Down a Gwynfor Jones am y lluniau yn y rhifyn hwn.

Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Tachwedd o PERTHYN at Gwenan (gwenancreunant@googlemail.com) neu Ann (apo@cymru.ac.uk) erbyn dydd Gwener, 21 Hydref os gwelwch yn dda.

# DYDDIADUR HYDREF 2016

GWASANAETHAU'R SUL 10.00 a 6.00 yn y  
Morfa; 2.15pm yn Ebeneser

- 2 Eifion Roberts (cymun bore)
- 9 Peter Thomas
- 16 Eifion Roberts (ac oedfa ddiolchgarwch yr Ysgol Sul yn y bore)
- 23 Rhidian Griffiths
- 30 Megan Williams (oedfa'r nos am 5)

## YSGOLION SUL

Plant ac Ieuenctid: bore am 10

Oedolion: ar ôl gwasanaeth y bore

**CLWB HWYL HWYR** – bob nos Lun, 3.45–5, Festri'r Morfa

**CYFARFODYDD WYTHNOSOL** – nos Iau am 7, Morlan

**CYLCH GWEDDI A CHOFFI** – bore Mawrth am 10.30, Morlan

**CINIO BARA A CHAWS** – 3 Hydref, Bethel Stryd y Popty

**Y GYMDEITHAS** – 10 Hydref, am 2 o'r gloch, *Beth am baned? Prynawn y llestri* gyda William Griffiths ac Eifion Roberts



24 Hydref, am 7 o'r gloch

**Swper Diolchgarwch**

Gwesteion: Gareth a Nona Owen